Y Rhai Nas Cymodwyd – Grawys 2011

# Condemniad a Maddeuant

**Dydd Mawrth 19eg Ebrill 2011**

## DECHRAU'R DAITH

*Aeth menyw ifanc i'r dafarn ar ôl gwaith i gael diod gyflym cyn mynd adref. Cwrddodd â rhai o'i ffrindiau, a chyn hir roedd hi wedi cael sawl diod, ac wedyn cafodd hi sawl diod arall. Gadawodd y dafarn yn llawer hwyrach nag oedd hi wedi bwriadu, mynd i mewn i'w char, a chael ei stopio ar unwaith gan yr heddlu i roi prawf anadl iddi. Ar y cychwyn, roedd hi'n meddwl am y peth fel anlwc, neu 'un o'r pethau yna'. Ond oherwydd ei bod ymhell dros y terfyn, fe gollodd ei thrwydded. Gwaetha'r modd, roedd angen iddi yrru fel rhan o'i swydd, ac fe gafodd hi'r sac. Methodd â chael hyd i swydd arall, a bu rhaid iddi hi a'i phartner werthu eu tŷ. Roedd teulu ei phartner yn ei beio hi am ei thwpdra, ac ar ôl sbel, gadawodd ei phartner. Yn ddiweddarach, disgrifiodd ei bywyd fel 'môr o gondemniad' – yn cael ei beio gan yr awdurdodau cyfreithiol am dorri'r gyfraith, yn cael ei beio gan ei ffrindiau am gael ei dal, yn cael ei beio gan ei phartner am golli ei swydd a'u cartref, ac yn beio ei hun i raddau helaeth am y sefyllfa roedd hi ynddi.*

Mae'r stori hon yn dangos ei fod yn hawdd i bobl lithro i lawr y llethr tuag at gondemniad, ac yn aml mae cydnabod bai a gweld yn glir ble aeth pethau o le yn cael eu boddi gan deimladau o erledigaeth a bai. O dan yr amgylchiadau hynny, mae maddeuant, adnewyddu hunan-werth a heddwch yn anodd cael gafael arnynt. Mae rhai pobl yn cael eu bod wedi eu condemnio dim ond oherwydd eu bod yn edrych neu'n siarad yn wahanol, neu bod ganddynt gredoau gwahanol. Mae eraill yn cael eu condemnio am eu gweithredoedd a'u hymddygiad. Mae rhai Cristnogion hefyd yn cael weithiau eu bod yn cael eu condemnio gan eu cyd-Gristnogion oherwydd pethau sydd wedi digwydd iddynt mewn bywyd, dewisiadau y maent wedi eu gwneud, neu oherwydd eu tueddfryd rhywiol neu eu ffordd o fyw. Gall pobl sy'n brofi condemniad droi'n Rhai nas Cymodwyd, wedi eu cau allan o berthnasoedd da, cynhyrchiol gyda'r rhai sy'n eu condemnio, a gall hyn arwain at deimladau o fod yn ynysig, a diffyg hunan-barch.

Mae maddeuant yn gysyniad pwysig yn y ffydd Gristnogol, ac yn gyfryngwr pwerus wrth gymodi, ond mae sut a phryd y caiff ei gynnig a sut y caiff ei dderbyn yn anoddach. Gall yr angen am feio a gweld bai fod yn gymhelliant grymus, a gall dod i delerau â digwyddiadau a gwneud synnwyr ohonynt, gan ddelio ag atgofion a symud ymlaen heibio iddynt, gymryd amser hir.

## Myfyrdod

Meddyliwch am adeg yn eich bywyd pan wnaeth rywun rywbeth i'ch tramgwyddo. Sut deimlad oedd hynny, a beth oedd rhaid ei wneud i oresgyn y teimladau hynny? Sut deimlad yw cymodi â rhywun? Beth gallwn ni ei wneud am brofiadau sy'n dal heb eu datrys?

Beth yw eich barn chi am hysbysebion sy'n annog pobl i erlyn ar ôl cael damwain er mwyn hawlio'r iawndal maen nhw'n ei 'haeddu'? Ddylai fod yna le ar gyfer maddeuant yn y sefyllfaoedd hynny, neu ydy 'iawndal' bob amser yn angenrheidiol? Ydych chi'n meddwl bod yr hysbysebion hynny'n atgyfnerthu diwylliant o ddioddefwyr?

# Mynd yn Ddyfnach

Mae maddeuant yn fater pwysig nid yn unig wrth gymodi rhwng unigolion, ond hefyd rhwng pobl a Duw. Pan ddysgodd Iesu'r bobl sut i weddïo yng Ngweddi'r Arglwydd, fe wnaeth e gynnwys geiriau yn gofyn i'r Tad faddau pechodau yn union fel rydym ni'n maddau i eraill sy'n gwneud cam â ni. Felly mae bod yn edifar a gofyn am faddeuant yn rhan hanfodol o'n bywyd a'n twf ysbrydol, ond mae hefyd yn gysylltiedig â sut rydym ni'n llwyddo i ddelio â chael ein brifo a maddau i bobl eraill. Mae'r gallu i faddau yn ein galluogi i greu a chynnal perthnasoedd a'u trwsio pan aiff pethau o le. Mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion y dylai'r gallu i faddau fod yn ddiderfyn yn ddelfrydol, ac y dylem bob amser ddangos tosturi a thrugaredd. Nid yw hynny'n golygu y dylem feirniadu pobl sy'n cael mwy o drafferth maddau, oherwydd efallai bod angen mwy o help ar y bobl hynny eu hunain i ddelio gyda beth bynnag sydd wedi digwydd iddynt, ac maent heb gael hyd eto i'r rhyddid a fyddai'n eu galluogi i faddau i'r rhai sydd wedi gwneud cam â nhw. Nid yw chwaith yn golygu y dylem anwybyddu troseddau, oherwydd mae cyfiawnder yn bwysig pan gyflawnir trosedd, a gall fod rhaid i rywbeth ddigwydd i ddangos bod cyfiawnder a/neu wneud iawn wedi digwydd. Ond mae hefyd yn bwysig cynnig dechrau newydd i'r bobl y mae angen hynny arnynt. Gwelwn hyn wrth i Iesu atal y bobl rhag llabyddio i farwolaeth y wraig a ddaliwyd yn godinebu (Ioan 8.3-11). Mae'n dweud wrthi nad yw yntau'n ei chondemnio chwaith, ond mae'n ei hatgoffa bod ei rhyddid yn golygu bod rhaid iddi sicrhau ei bod yn newid ei bywyd.

# Gweithgaredd

Edrychwch ar yr adran storïau yn y Forgiveness Project (http://theforgivenessproject.com/stories/ ) neu 'dudalen problemau' mewn papur newydd neu gylchgrawn. Beth mae'r storïau hynny'n dweud wrthych chi am gymhlethdod condemniad a maddeuant? Yn hytrach nag edrych ar yr 'ateb' i'r problemau, meddyliwch am unrhyw un y gallai fod angen iddyn nhw ymddiheuro neu dderbyn maddeuant yn y 'broblem'. Sut gallai bod yn edifar a chael maddeuant wneud gwahaniaeth?

# Dathlu'r Beibl I

## Ioan 12.20-36

*Ymhlith y bobl oedd yn dod i fyny i addoli ar yr ŵyl, yr oedd rhyw Roegiaid. Daeth y rhain at Philip, a oedd o Bethsaida yng Ngalilea, a gofyn iddo, "Syr, fe hoffem weld Iesu." Aeth Philip i ddweud wrth Andreas; ac aeth Andreas a Philip i ddweud wrth Iesu. A dyma Iesu'n eu hateb. "Y mae'r awr wedi dod," meddai, "i Fab y Dyn gael ei ogoneddu. Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, os nad yw'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun; ond os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth. Y mae'r sawl sy'n caru ei fywyd yn ei golli; a'r sawl sy'n casáu ei fywyd yn y byd hwn, bydd yn ei gadw i fywyd tragwyddol. Os yw dyn am fy ngwasanaethu i, rhaid iddo fy nghanlyn i; lle bynnag yr wyf fi, yno hefyd y bydd fy ngwasanaethwr. Os yw dyn yn fy ngwasanaethu i, fe gaiff ei anrhydeddu gan y Tad.*

*"Yn awr y mae fy enaid mewn cynnwrf. Beth a ddywedaf? 'O Dad, gwared fi rhag yr awr hon'? Na, i'r diben hwn y deuthum i'r awr hon. O Dad, gogonedda dy enw." Yna daeth llais o'r nef: "Yr wyf wedi ei ogoneddu, ac fe'i gogonedda eto." Pan glywodd y dyrfa oedd yn sefyll gerllaw, dechreusant ddweud mai taran oedd; dywedodd eraill, "Angel sydd wedi llefaru wrtho." Atebodd Iesu, "Nid er fy mwyn i, ond er eich mwyn chwi, y daeth y llais hwn. Dyma awr barnu'r byd hwn; yn awr y mae Tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan. A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun." Dywedodd hyn i ddangos beth fyddai dull y farwolaeth oedd yn ei aros. Yna atebodd y dyrfa ef: "Yr ydym ni wedi dysgu o'r Gyfraith fod y Meseia i aros am byth. Sut yr wyt ti'n dweud, felly, bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu? Pwy yw'r Mab y Dyn yma?" Dywedodd Iesu wrthynt, "Am ychydig amser eto y bydd y goleuni yn eich plith. Rhodiwch tra mae'r goleuni gennych, rhag i'r tywyllwch eich goddiweddyd. Nid yw'r dyn sy'n rhodio yn y tywyllwch yn*

*gwybod lle y mae'n mynd. Tra mae'r goleuni gennych, credwch yn y goleuni, ac felly meibion y goleuni fyddwch." Wedi iddo lefaru'r geiriau hyn, aeth Iesu i ffwrdd ac ymguddio rhagddynt.*

Yn y darn hwn ceir cipolwg ar effaith fyd-eang yr Efengyl yn y presennol wrth i rai 'Groegiaid' ofyn am weld Iesu, ac mae hynny'n sbarduno Iesu i siarad am ei ddyfodol yntau a'i ddisgyblion; sut bydd ei bwrpas, a fydd yn arwain at ledaenu'r ffydd i'r holl fyd, yn cael ei gyflawni. Mae Iesu'n sôn am yr angen i 'hedyn' farw cyn y gall gwyrth ryfeddol tyfiant newydd a chynaeafu ddigwydd. Mae Iesu'n dangos ei fod yn eithriadol o ymwybodol o farn Duw ar y byd, ac mai dymuniad ei Dad yw chwynnu'r drwg allan o'r byd. Mae'n ymwybodol o natur ddinistriol pechod ac anghyfiawnder gyda'i holl ddwyster, tywyllwch a malais. Oherwydd bod y drygioni yn byd wedi cael ei gondemnio gan Dduw, mae Iesu'n awgrymu mai ef yw'r hedyn y mae'n rhaid iddo farw er mwyn trechu'r drygioni hwnnw a thynnu pobl ym mhob man ato ei hun mewn cynhaeaf o ffydd. Er bod y byd dan gondemniad Duw, trwy Iesu gall pobl gael maddeuant ac adferiad.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Ydych chi'n meddwl y gall maddeuant byth fod yn ddi-gost?
- Yn hanes Ioan, mae Iesu'n defnyddio delweddau o hedyn yn cynhyrchu tyfiant newydd a goleuni'n atal y tywyllwch. Ym mha ffyrdd eraill yr hoffech chi ddisgrifio gobaith newydd a threchu drygioni, a sut gallech chi egluro beth mae Iesu'n ei ddweud yn y darn hwn i ffrind neu gymydog nad yw'n Gristion?
- Dychmygwch eich bod chi'n berson yn y dorf yn clywed llais Duw/taran. Sut byddech chi wedi teimlo am y profiad a pha gwestiynau byddech chi wedi eisiau eu gofyn i Iesu?

# Dathlu'r Beibl – II

**(Y darlleniad hwn yw'r un a nodwyd ar gyfer Gwasanaeth Dyddiol heddiw ar Radio 4)**

## Luc 23.32-35; 39-43

*Daethpwyd ag eraill hefyd, dau droseddwr, i'w dienyddio gydag ef. Pan ddaethant i'r lle a elwir Y Benglog, yno croeshoeliwyd ef a'r troseddwyr, y naill ar y dde a'r llall ar y chwith iddo. Ac meddai Iesu, "O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud." A bwriasant goelbrennau i rannu ei ddillad. Yr oedd y bobl yn sefyll yno, yn gwylio. Yr oedd aelodau'r Cyngor hwythau yn ei wawdio gan ddweud, "Fe achubodd eraill; achubed ei hun, os ef yw Meseia Duw, yr Etholedig."*

*Yr oedd un o'r troseddwyr ar ei groes yn ei gablu gan ddweud, "Onid ti yw'r Meseia? Achub dy hun a ninnau." Ond atebodd y llall, a'i geryddu: "Onid oes arnat ofn Duw, a thithau dan yr un ddedfryd? I ni, y mae hynny'n gyfiawn, oherwydd haeddiant ein gweithredoedd sy'n dod inni. Ond ni wnaeth hwn ddim o'i le." Yna dywedodd, "Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas." Atebodd yntau, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys."*

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Dychmygwch eich bod chi'n un o'r bobl oedd yn hoelio Iesu ar y groes, beth fyddai geiriau Iesu yn mynegi ei faddeuant yn ei olygu i chi?
- Dychmygwch mai chi yw'r troseddwr edifar. Beth rydych chi wedi dod i'w ddeall am gondemniad a maddeuant?
- Pam rydych chi'n meddwl bod Iesu'n sôn am iachawdwriaeth yn nhermau maddeuant, yn hytrach na iachawdwriaeth trwy rym, fel y mae pawb arall yn galw amdano yn y darn hwn?

## Dilyn Iesu

Persbectif arall ar yr Iawn, a amlygir gan y darn o Luc uchod, yw meddwl am beth wnaeth Iesu yn nhermau ein thema, sef condemniad a maddeuant. Gwelodd un llinyn o'r traddodiad Cristnogol gondemniad Iesu gan yr awdurdodau a'i farwolaeth dan eu llaw fel pris neu 'bridwerth' a dalwyd i'r un drwg neu 'reolwr' y byd (gweler y darn o Ioan uchod). Gallwch glywed hyn yn yr emyn sy'n dechrau 'Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn...' sy'n cynnwys y geiriau 'Nid oedd ond un yn ddigon da i dalu pridwerth dyn...'). Oherwydd ein bod yn gwyro o'r llwybr, rydym yn y pen draw yn rhai nas cymodwyd, wedi ein gwahanu oddi wrth Dduw, ac yn yr ystyr honno rydym yn 'eiddo' i bwerau drygioni. Mae'n hawdd gweld sut mae hynny'n digwydd pan gaiff pobl eu llyncu gan drachwant, cenfigen, hunanoldeb, dicter a chasineb, er enghraifft. Ond mae rhai pobl hefyd yn cael eu dal mewn drygioni heb wneud drwg eu hunain. Felly condemnir y drygioni sy'n dinistrio bywydau, telir 'pridwerth' trwy farwolaeth Iesu, a chawn ein rhyddhau i dderbyn maddeuant gan Dduw am sut rydym ni wedi methu â gwireddu'r hyn yr oeddem i fod i'w gyflawni fel pobl. Felly mae Iesu'n sôn am bwysigrwydd ceisio maddeuant a chynnig maddeuant i eraill.

Ffordd arall o ddeall y Groes fel lle o gondemniad, a ddilynir gan faddeuant a rhyddhad, yw ei chysylltu â'r syniad o iachâd. Mae Iesu yn creu'r cysylltiad hwn ei hun wrth wella claf, trwy ddweud 'maddeuwyd dy bechodau': mae cysylltiad rhwng ein hiechyd corfforol, meddyliol ac ysbrydol. Adroddir hanes y croeshoeliad (mewn gwahanol ffyrdd) gan holl awduron yr Efengylau, felly gallwn weld darlun byw o gondemniad Iesu ac effaith gorfforol, feddyliol ac ysbrydol hynny arno. Cafodd ei sarhau, ei wawdio, ei watwar, ei adael, ei arteithio, ac yn y diwedd bu farw o'i glwyfau erchyll. Mae dioddefaint Iesu a'i glwyfau corfforol yn cynrychioli'r cyflwr rydym ni i gyd mynd iddo, fel nad oes modd i Dduw adnabod ei ddelw ei hun ynom. Ac eto 'trwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni': dengys yr atgyfodiad i ni y gallwn gael ein prynu, ein hiacháu, ein hadfer a derbyn maddeuant a thrwy hynny ddod yn addas ar gyfer y Nefoedd a bywyd gyda Duw, y cawsom ein creu ar ei lun a'i ddelw.

## Gweithgaredd

Meddyliwch am y tro diwethaf y buoch chi'n addurno eich cartref neu'n ei lanhau o ddifri. Beth sydd wedi digwydd i'r paent neu'r papur wal ers hynny? Pa arwynebau glân sydd bellach yn frwnt, wedi eu crafu neu wedi treulio? Sut byddwch chi'n teimlo wrth fynd ati i lanhau ac addurno eto, os gwnewch chi hynny? Faint o ymdrech ac egni fyddai angen i adfer eich cartref i'r cyflwr gorau posib? Ydy hynny hyd yn oed yn bosib i chi? Pam byddech chi eisiau gwneud hynny beth bynnag? Os oes angen cymaint o ymdrech ar ofod er mwyn gallu byw ynddo fe, beth dybiwch chi allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod person yn addas i fyw gyda Duw?

Beth yw eich barn chi am 'broblem' drygioni a chyflwr y byd? Ydy meddwl am groeshoeliad Iesu, ei farwolaeth a'i atgyfodiad yn nhermau maddeuant, pridwerth a/neu iachâd yn mynd at wraidd y mater, neu ydych chi'n meddwl bod angen mwy na hynny?

## Myfyrdod diwinyddol a gweddi

*Arglwydd,*
*Pan safwn ynghyd,*
*Yn murmur ar un arall*
*Yn gafael yn ein cerrig,*
*Yn eu teimlo'n oer a chaled yn ein dwylo,*
*Oera'r dicter cyfiawn yn ein calonnau,*
*Tynn y cerrig o'n dwylo*
*A'r trawstiau o'n llygaid*
*A gad i ni dy weld di,*
*Yn cynnig dy faddeuant*
*Fel ein bod ni, hefyd, yn maddau. Amen*

# Beth sy'n mynd i newid?

***Gallwch ddefnyddio'r adran hon i grynhoi eich meddyliau ac i gynllunio unrhyw brosiectau ar y thema hon at y dyfodol.***

- **Ymhle y mae had bywyd newydd?** Pa roddion mae Duw wedi eu rhoi i ni i gynnig a derbyn maddeuant yn ein sefyllfa ein hunain?
- **Sut i'w gludo?** Pa adnoddau fydd eu hangen arnom i estyn llaw er mwyn galluogi a pharatoi pobl i deithio tuag at faddeuant yn eu bywydau eu hunain?
- **Ymhle y genir ef?** Nodwch un cam cymodlon y gallwn ymrwymo iddo a fydd yn helpu pobl nas cymodwyd i ddeall ystyr maddeuant.
- **Sut y gallwn ei feithrin?** Sut gallwn ni gynnal y weithred gymodlon honno a sicrhau camau dilynol iddi?
- **Beth ydym ni'n gobeithio ei weld?** Beth fydd wedi newid ar ddiwedd y broses hon a pha wahaniaeth dylai hynny fod wedi ei wneud?

# Mynd ymhellach

Matthew Linn, Sheila Fabricant Linn a Dennis Linn, *Don't Forgive Too Soon*, (Paulist Press 1997)
Robert D Enright a Joanna North, *Exploring Forgiveness*, (Madison, Wisconsin: Gwasg Prifysgol Wisconsin 1998) http://theforgivenessproject.com/

Cymerwyd y dyfyniadau o'r Ysgrythur allan o'r Beibl Cymraeg Newydd, 1988,
© Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon, SN5 7DG.

Llun o'r Rhai Nas Cymodwyd (Y Groes a gwydr wedi torri): CTBI / Vicki & Chuck Rogers / Phil Dragash (Creative Commons - BY-NC-SA)